PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 384 | RHAGFYR 2015



Nantyrarian t.5



Profiadau bythgofiadwy t.7

## Gwyddonwyr lleol yn arwain adfywiad meillion coch

Mae gwyddonwyr yn IBERS Prifysgol Aberystwyth a TGAC (Canolfan Dadansoddi Genom) yn Norwich wedi trefnu a chydosod y genom meillion coch. Cyhoeddwyd astudiaeth â'r pennawd: "Red clover (*Trifolium pratense L.*) draft genome provides a platform for trait improvement" yn *Scientific Reports*, cyfnodolyn y grŵp cyhoeddi *Nature*.

Mae hon yn garreg filltir wyddonol bwysig i amaethyddiaeth, gan y bydd yn galluogi bridwyr planhigion i ddatblygu mathau newydd o feillion coch sy'n addas ar gyfer ffermio cynaliadwy mewn amgylchedd heriol a newidiol. Meddai'r prif awdur, Dr Leif Skøt sy'n arwain y prosiect yn IBERS: "Y nod yw i'r wybodaeth hon gael ei bwydo i mewn i'n rhaglen barhaus o fridio meillion coch er mwyn cyflymu'r broses o wella parhad a goddefgarwch i bori, tra'n cynnal cynnyrch biomas uchel y mae meillion coch yn adnabyddus amdano.



Dr Leif Skøt (ar y dde) a'r tîm yn IBERS




Lleoliad arfaethedig Campws Arloesi a Menter Aberystwyth mewn glas (Campws Gogerddan)

## Rhagolwg ar gynlluniau Campws Arloesi a Menter Gogerddan

Cynhaliwyd digwyddiad ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiweddar yn trafod Cyllid ac Adnoddau ar gyfer Arloesi, ac yn rhoi cipolwg cynnar i gwmnïau ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddefnyddio buddsoddiad gwerth £40.5m i wireddu'r weledigaeth am gampws newydd ar gyfer Arloesi a Menter - AIEC. Daeth mwy na 30 o wahanol gwmnïau, yn amrywio o gynhyrchwyr bwyd lleol, i fusnesau technoleg amaeth rhyngwladol ynghyd a rhoddwyd cyfle i'r cynadleddwyr gael rhagolwg ar sut y gallai'r datblygiadau arfaethedig hyn eu helpu a'u cefnogi â'r cynlluniau sydd ganddynt i ddatblygu eu busnesau.

Bydd y Coleg yn rhannu gwybodaeth bellach am y cynllun yn y Gwanwyn a bydd cyfle i weld y dyluniau diweddaraf.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ionawr Deunydd i law: Ionawr 8 | Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 20**

**RHAGFYR 17** Nos Iau Plygain traddodiadol yn Eglwys St Ioan (25ain plygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn) am 7.30

**RHAGFYR 20** Nos Sul Disco Nadolig PATRASA ac Adran Iau CPD Penrhyn-coch, yn y Clwb 5 -7yh. £2 i bawb i fynd fewn a fydd yn cynnwys bwyd i bob plentyn; raffl; bydd Santa yn galw. £2 i PATRASA

**RHAGFYR 21** Nos Lun Gyrfa chwist flynyddol yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch i ddechrau am 8 yn brydlon. Dofednod a llawer mey fel gwobrau.

**RHAGFYR 22** Nos Fawrth Canu carolau o amgylch pentref Penrhyn-coch gyda Greg Roberts Cyfarfod ar y Sgwâr am 6.30

**2016**

**IONAWR 15** Nos Wener Noson yng nghwmni Ruth Jên, Tal-y-bont Cymdeithas Lenyddol y Garn yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

**IONAWR 20** Nos Fercher Gareth Owen Cwys fy Nhad Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch, am 7.30.

**IONAWR 29** Nos Wener Caws, gwin a cwis yn neuadd Eglwys St Ioan y Penrhyn, am 7.00


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


## Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50

neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn

– misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis

£4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)

## Diolch

Hoffai y golygydd ddiolch i William Howells, Penrhyn-coch ac Anwen Pierce, ysgrifennydd y Tincer a ffrindiau yn y Wladfa am eu cymorth gyda rhifyn Tachwedd o'r Tincer.

## Nadolig Llawen

Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu – eleni i Shelter Cymru.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Tachwedd 2015**

**£25** (Rhif 105) Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
**£15** (Rhif 206) Elen Evans, Erw Las, Bow Street
**£10** (Rhif 241) Owen Watkin, 19 Maeshenllan, Llandre

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Tachwedd 18**

## UCAC yn dathlu pen blwydd yn 75 mlwydd oed

Annwyl Olygydd Y Tincer,
Sefydlwyd UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru) yng Nghaerdydd yn 1940 gan grŵp o athrawon oedd yn gweld yr angen am undeb athrawon fyddai'n ymateb i anghenion penodol athrawon Cymru.

Ar 14 Rhagfyr 2015, bydd UCAC yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 75 mlwydd oed. Mae'r amcanion hynny a sefydlwyd yn y cyfarfod cyntaf dan arweiniad Gwyn M. Daniel, Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf UCAC, yn parhau i fod yn greiddiol i waith yr undeb hyd heddiw.

Dyma sydd wedi'i gofnodi yn y Llyfr Cofnodion:

"Daeth nifer dda o athrawon o bob gradd o'r Ysgolion Elfennol i'r Brifysgol ynghyd yn Nhŷ'r Cymry, Heol Gordon, Caerdydd, am 1.30 o'r gloch ddydd Sadwrn, Rhagfyr 14eg 1940 i sefydlu'r Undeb."

Fel y dywed Rhodri Llwyd Morgan yn ei erthygl Sefydlu Archif UCAC 1940 - c.1980 (Amser Egwyl, Rhifyn 1, Rhagfyr 2000): "Adeg ei sefydlu, roedd UCAC yn fudiad arloesol. UCAC oedd yr undeb llafur proffesiynol cyntaf i'w sefydlu yng Nghymru a hynny gan Gymry a thros Gymru. Cynrychiolai gorff a fynnai ganolbwyntio meddyliau ar anghenion addysgol a diwylliannol Cymru."

I gofnodi 75 mlynedd ers ei sefydlu, bydd UCAC yn lansio archif ddigidol ar-lein fydd yn cynnwys lluniau, dogfennau, posteri a chyhoeddiadau amrywiol. Mae'r undeb yn galw ar aelodau presennol, cyn-aelodau, teuluoedd sylfaenwyr yr undeb, ac unigolion sydd â chysylltiad â'r undeb i fynd i dwrio am luniau, dogfennau neu effemera yn ymwneud â'r undeb. Bydd UCAC yn sganio ac yn cofnodi pob eitem ddaw i law mewn cydweithrediad â Chasgliad y Werin Cymru dros yr wythnosau nesaf, a gyda chaniatâd, yn cyhoeddi'r deunydd ar-lein. Mae'r undeb yn annog pobl i ddod i gysylltiad â hwy os oes ganddynt ddeunydd perthnasol: 01970 639 950 neuucac@ucac.cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Carys Lloyd ar 01970 639 950 neucarys@ucac.cymru.

Gyda diolch.
Cofion cynnes,
Elaine Edwards,
Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

## 30 MLYNEDD YN ÔL



Merched a gwragedd ifanc Horeb a'r cylch yn cael seibiant wrth ymarfer a pharatoi ar gyfer gwasanaethau'r Nadolig. Mrs Nia Lewis sydd yn hyfforddi Côr Merched Bro Dafydd (O'r *Tincer* Tachwedd 1985)

**Beth am gefnogi eich papur bro trwy ymuno â'r Cyfeillion**

# CYFEILLION Y TINCER

*FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB*

Enw Llawn ______________________

Cyfeiriad ______________________

______________________

______________________

Côd Post ____________

Rhif Ffôn ____________

**Taliadau**
Ticiwch y blwch priodol os gwelwch yn dda

☐ Arian neu Siec

☐ Archeb Banc

**Datganiad** Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn I mi dalu £10 am flwydyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rhif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.
Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer.

Llofnod ______________________

Dyddiad ______________________

# BOW STREET

**Suliau**
**Capel y Garn**
**10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**
**Rhagfyr**
20 Aelodau'r Eglwys Bugail (C)
27 J. E. Wynne Davies

**Ionawr**
3 Elwyn Pryse (Bore yn unig)
10 Adrian Williams
17 Bugail
24 John Gwilym Jones
31 Aelodau›r Eglwys

**Noddfa**
**Rhagfyr**
20 10.00 Nadolig Noddfa Y Garn yn ymuno
24 23.30 Gwylnos noswyl Nadolig
25 9.00 Uno yn y Garn
27 10.00 Uno yn Y Garn







## Merched y Wawr

Cyfarfu'r gangen nos Lun 9fed o Dachwedd gyda Shân Hayward, ein Llywydd, yn ein croesawu yn gynnes. Ar ôl mynd drwy yr ohebiaeth o'r Ganolfan croesawodd Sian ein gwraig wadd, sef Eirian Pritchard o Bontnewydd, Gwynedd. Wrth gwrs roedd y rhan fwyaf ohonom yn cofio Eirian yn byw yn y pentref gyda'i rhieni y Parchg a Mrs D R Pritchard. Roedd mor braf cael ei chyfarfod eto. A sôn am wledd oedd ganddi inni o grefftwaith tuag at y Nadolig. Dangosodd inni sut i wneud llawer o'r addurniadau bach, ond roedd ganddi lawer o bethau eraill hyfryd ac rwy'n siwr i bawb brynu sawl addurn. Noson wych iawn ac roedd yr ystafell yn llawn bwrlwm!. Diolchwyd i Eirian am noson arbennig gan Brenda.

## Capel y Garn

**Y Gymdeithas Lenyddol**

Roedd Festri'r Garn yn orlawn nos Wener, Tachwedd 27, pryd cynhaliwyd cyfarfod i goffáu y diweddar Athro John Rowlands a fu farw ddechrau'r flwyddyn eleni ac a fu yn organydd yn y Garn pan oedd y teulu'n byw yn Nôl Bebin. Hyfryd oedd gweld bod ei weddw, Eluned, a'u dau fab, Dyfed a Huw, wedi teithio i ymuno â ni yn y cofio. Yr Athro Gruffudd Aled Wlliams oedd yn llywio'r noson a bu Bleddyn Huws, Mihangel Morgan, Robin Chapman a Marged Haycock yn rhannu eu hatgofion a'u gwerthfawrogiad o waith yr ysgolhaig mwyn a dawnus, y beirniad llenyddol treiddgar, y colofnydd tra gwybodus am fwyd a gwin, a'r awdur nofelau poblogaidd. Diolchwyd i'r cyfranwyr am noson gofiadwy gan Gadeirydd y Gymdeithas, Marian Beech Hughes.

## Cymdeithas y Chwiorydd

Fore Sadwrn, Tachwedd 28, roedd y festri yn llawn bwrlwm eto pan gynhaliodd y Chwiorydd eu cyfarfod Paned a Chacen blynyddol. Wrth dorri Cacen yr Adfent diolchodd y Parchg Wyn Morris yn gynnes iawn i Gartref Tregerddan a oedd, eleni eto, wedi darparu'r gacen hardd a blasus ar gyfer yr achlysur. Roedd Iestyn Hughes hefyd wedi paratoi cwis lluniau yn cynnwys adrannau ar Geredigion, Cymru, a gweddill y byd. Braf oedd gweld byrddeidiau o bobl a'u pennau ynghyd yn rhannu gwybodaeth a dyfaliadau am y gwahanol lefydd. Alan Wyn ac Ann Jones gafodd y sgôr uchaf. Codwyd £450 tuag at Fanc Bwyd y Jiwbili.
Brynhawn Mercher, Rhagfyr 2, daeth Shan James, Pen-banc, Penrhyn-coch i'r te misol i ddangos ei chrefft yn addurno cacennau. Wrth ei chyflwyno llongyfarchodd Llinos Dafis hi ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth addurno cacennau y Ffair Aeaf yn Llanelwedd, ar y testun '*Winter Wonderland*', a braint oedd cael gweld ei chyfansoddiad arobryn. Treuliwyd awr ddifyr wedyn yn gwylio meistres ar ei chrefft yn gweithio ac yn disgrifio'r hyn roedd hi'n ei wneud, a hynny mewn modd tawel a digyffro. Cafwyd prynhawn difyr a llesol. Merched y Dolau fu wrthi'n paratoi a gweini'r te. Margaret Rees arweiniodd y defosiwn gyda Kathleen Lewis wrth yr organ.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhydwen a Sara Mitchell, Gyfnewid, ar enedigaeth merch - Cadi Marged - ar 10 Rhagfyr; wyres i Carol a Howard Mitchell, Llanrhystud.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Huw Jones, Llety Cynnes, ar ei lwyddiant yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Morwenna a'r merched, 4 Cae Rhos. Fe gollodd Morwenna ei thad yn ddiweddar, sef Samuel Richard Evans o Pennal; yr oedd pawb yn ei adnabod fel Sam Pennal. Roedd yn gymeriad arbennig iawn a bu Morwenna yn gofalu amdano ef a'i ddiweddar wraig Doris dros y blynyddoedd diwethaf.

## Wyres

Llongyfarchiadau i Brian ac Eirian Dafis, 80 Bryncastell ar enedigaeth eu hwyres fach, Ethni Mair, merch fach i Sion Llŷr a Non Tudur, Rhostryfan, Caernarfon.

## Y ddiweddar Menna James

Bu farw Menna James, ym Mhlas Cwmcyn-felin (gynt o Dregerddan) ar 18 Hydref yn

96 mlwydd oed. Yn frodor o Gwmystwyth bu yn gweithio mew ffatri gweud arfau yn Burghfield, ger Reading yn ystod yr Ail Ryfel Byd cyn dychwelyd adref i Gymru i fyw gyda'i mam ym Mhen-y-garn. Aeth i weithio yn siop *ironmongers* W H Jones ar y Stryd Fawr yn Aberystwyth. Yn y siop honno y cyfarfu ag Ifor. Fel Menna roedd Ifor yntau hefyd wedi cyflawni gwaith pwysig yn ystod y rhyfel, fel aelod o'r *Army Medical Corps* yn rhai o wledydd Ewrop. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Garn yn ddiweddarach a daethant i ymgartrefu yn Nhregerddan. Bu'r ddau yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn batrwm o bartneriaeth arbennig. Bu farw Ifor yn 2007. u farw Mea ar 18 Hydref; cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn y Capel Gorffwys, Plas Brongenau ar ddydd Llun, 26 Hydref ac i ddilyn ym mynwent Pen-y-garn.

## CLARACH

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mim Thomas, Sarah ac Anne a gweddill y teulu ar farwolaeth Rosa Price, Plas Cwmcynfelin, yn dawel yn Ysbyty Bron-glais, ar Dachwedd 20. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen, ar Dachwedd 30.

Siop
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
Gwasanaeth
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion**
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
**01970 626200**

# Cwympo coed i ymladd yn erbyn clefyd yn Nantyrarian



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer ail gam gwaith sylweddol i gwympo coed mewn canolfan boblogaidd yng nghanolbarth Cymru i arafu lledaeniad clefyd sy'n heintio coed llarwydd.

Bydd y gwaith hwn yn cael gwared o hyd at 20,000 o goed ym Mwlchnantyrarian ger Goginan a heintiwyd gan y clefyd ffyngaidd Phytophthora ramorum.

Bydd y gwaith cwympo yn cychwyn ddechrau mis Rhagfyr a bydd 34 hectar o goed llarwydd yn cael eu cwympo i atal lledaeniad y clefyd, sydd wedi heintio oddeutu 6.7 miliwn o'r coed hyn yng Nghymru.

Er gwaetha'r gwaith cwympo sylweddol hwn, bydd y ganolfan ymwelwyr, sy'n cael ei rhedeg gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn parhau i fod yn agored, a bydd y barcudiaid coch yn parhau i gael eu bwydo'n ddyddiol o 2pm ar y safle gwobrwyedig.

Mae CNC eisoes wedi ailblannu tua 12,000 o goed brodorol ym Mwlch Nant yr Arian ers cam diwethaf gwaith cwympo sylweddol 2013.

Bydd cymysgedd o rywogaethau yn parhau i gael eu hailblannu yn yr ardal, gan gynnwys ffynidwydd Douglas a chedrwydd coch.

Meddai Gareth Owen, Rheolwr Canolfan Ymwelwyr Bwlchnantyrarian,

"Gwyddom fod gan Fwlchnantyrarian le arbennig yng nghalonnau'r bobl leol ac ymwelwyr. Yn anffodus, ni allwn atal y clefyd hwn rhag lledaenu, ond gallwn gymryd camau i'w arafu. Mae hyn yn golygu cwympo'r holl goed sydd wedi eu heintio ym Mwlchnantyrarian.

"Mae'n drist fod yn rhaid inni gwympo cymaint o goed sydd wedi eu heintio, ond mae'n gyfle inni blannu amrywiaeth o rywogaethau yn eu lle ac ychwanegu at y coed llydanddail sydd yma eisoes."

Bydd gwyriadau'n cael eu cynllunio ar rai llwybrau beicio mynydd a llwybrau cerdded yn yr ardal unwaith y bydd y gwaith cwympo wedi cychwyn. Bydd y rhain yn cael eu harwyddo'n eglur ac mae'r manylion ar gael ar wefann CNC.

Mae'n hanfodol nad yw pobl yn mynd i'r ardaloedd hyn am resymau diogelwch.

Meddai Gareth:

"Byddwn yn gofalu bod rhannau o'r goedwig bob amser ar agor i bobl i'w mwynhau a byddwn yn rhoi gwybod iddynt cyn gynted ag y gallwn os bydd llwybrau yn cau neu os bydd gwyriadau, ar ein gwefan, ar sianeli cyfryngau cymdeithasol ac yn y ganolfan ymwelwyr."

"Bydd mwy o bren yn cael ei gludo drwy'r maes parcio ond bydd yn parhau i fod yn agored."

Ar ôl y gwaith cwympo bydd y pren yn cael ei anfon i felinau llifio lleol i'w ddefnyddio yn y diwydiant adeiladu.

Mae hwn yn gyfle i adfer rhywfaint o werth economaidd y pren y gellir ei ail-fuddsoddi yn Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn i'r holl ymwelwyr helpu i rwystro lledaeniad Phytophthora ramorum drwy olchi esgidiau ac offer fel beiciau, cyn dychwelyd i unrhyw goetir.

Dylid gadael priciau neu ddail yn y goedwig, a dylid brwsio unrhyw nodwyddau oddi ar eich eiddo cyn gadael y coetir.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Pen-llwyn**
**Rhagfyr**
20 11.15 Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Sul Pen-llwyn dan arweiniad ein Gweinidog
27 5.00 Y Parchg Judith Morris

**Ionawr 2016**
3 10.00 Y Parchg Wyn Morris (Gwasanaeth Cymun)
10 10.00 Dr. John Tudno Williams
17 10.00 Y Parchg Ifan Mason Davies
24 10.00 Y Parchg Elwyn Pryse
31 10.00 Y Parchg Eifion Roberts

### Merched y Wawr Melindwr

Daeth pob aelod ein cangen i Westy'r Richmond ar y cyntaf o Ragfyr i ddathlu Nadolig cynnar. Ein gwraig wadd oedd Miss Beti Griffiths OBE, ac nid oedd rhaid i'n llywydd Delyth Davies ei chyflwyno oherwydd roedd pawb yn ei adnabod mewn un ffordd neu'i gilydd.

Ar ôl mwynhau cymdeithasu a gwledd Nadoligaidd clywwyd am rysáit arbennig y Nadolig wnaethpwyd. Nid un Mary Berry na Delia Smith ond un yn cynnwys Hapusrwydd, Heddwch ac Unigrwydd gyda chofio gwneud y pethau bach wrth i ni baratoi a threfnu ein Nadolig. Hefyd nid i ddisgwyl cael ond cofio rhoi ein hunain a'n hamser i wneud gwahaniaeth i eraill.

Cynigiodd ein llywydd ddiolchiadau i'r pwyllgor am drefnu y noswaith a chynigiwyd diolchiadau i'r Gwesty ac i Miss Beti Griffiths gan Nia Davies. Cyn mynd am adref enillodd pedwar aelod wobr raffl a chyflwynwyd hysbysebion. Da oedd clywed bod 9 o'n haelodau wedi cystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol yn ddiweddar a bod pawb wedi mwynhau. Llongyfarchiadau i'r enillwyr. Daeth y drydedd wobr yn ôl i dîm B Cangen Aberystwyth!

### Cartref Newydd

Dymunwn ddymuniadau gorau i Mr Glyndwr Davies, Dolpandy, sydd erbyn hyn mewn Cartref, sef Annedd, Llanybydder. Fel y gŵyr llawer ohonoch, bu Glyndwr yn ffyddlon iawn i Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor, yn canu cloch yr eglwys am dros hanner cant o flynyddoedd. Mae yn 89 mlwydd oed, ac wedi medru byw wrth ei hun tan yn ddiweddar iawn, gyda chymorth cymdoges iddo, sef Mrs Eluned Scott. Galwai Mrs Scott arno bob borau, a mynd a chinio iddo gyda'r hwyr. Mae'n dda gennym glywed ei fod yn hapus iawn yn ei gartref newydd.

### Cerdd

Llongyfarchiadau i Nannon Jones Tangeulan, am fod yn llwyddiannus yn arholiad Cerdd, Theori Safon 1.

Hefyd, yr un llongyfarchiadau i Alaw Evans, Trering, sydd wedi bod yn llwyddiannus yn arholiad Cerdd, Theori Safon 2, a hynny gydag Anrhydedd. Da iawn chi, a daliwch ati eich dwy. Maent yn dymuno diolch i'w hathrawes Mrs Hogger, Plasmelindwr.

### Cyngerdd

Llongyfarchiadau i blant Ysgol Gynradd Pen-llwyn, a'r staff i gyd am noson hyfryd iawn, yn portreadu stori'r geni ar ffurf gerddorol, pob un ar ei orau, a phawb yn mynd adre wedi mwynhau.



### Cyfarchion y Tymor

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Tincer,ac i bawb sy'n wael, yn gaeth i'w cartrefi, neu mewn Cartref Preswyl. Gyda dymuniadau gorau i chi i gyd, a boed i 2016 fod yn flwyddyn dda i bawb ohonoch.




newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
47 Heol Maengwyn Machynlleth SY20 8EB
Swyddfa'r Ysgubor, Alexandra Rd. Aberystwyth SY23 1LN
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006


# DÔL-Y-BONT

### Cofion

Anfonwn ein cofion at Sw Gerallt, Y Leri, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Erbyn hyn mae Sw yn Ysbyty Bron-glais ac yn gwella - gobeithio y bydd yn ol gyda ni yn fuan iawn


Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:
Dysgu Bro CEREDIGION Community Learning
01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk

Bwyd Da . . .
Cwmni Da . . .
yBlac TALYBONT

Eleni, beth am Barti Nadolig bythgofiadwy yn yBlac!
Ffoniwch neu e-bostiwch i archebu.
01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

# TREFEURIG

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Lin a'r teulu ar farwolaeth sydyn John Walter Deans, Crud yr Awel, Cwmsymlog ar 11 Hydref.

### Profiadau bythgofiadwy yn Affrica

Cafodd Catrin Walker, Llety'r Ddwylan, brofiadau bythgofadwy yn ystod mis Tachwedd. Roedd Catrin wedi gwneud cais i gael gwirfoddoli yng Nghanolfan Gofal Bywyd Gwyllt Moholoholo, De Affrica.

Dechreuodd ei siwrnai ar y tren yn Aberystwyth i Lundain, hedfan o Lundain i Johannesburg ac wedyn hedfan eto i Hoedsprvit ac wedyn siwrnai o dros ddeugain munud i'r Ganolfan.

Ar ôl cyrraedd cafodd fynd ati i weithio gyda'r anifeiliaid oedd yn y ganolfan ac roedd rhain yn cynnwys llewod, llewpard, cheetah, moch daear mêl, cŵn bach jackal a fwlturiaid. Yn ystod yr amser roedd yno fe fu yn magu cywion tylluan eryr.

Cafodd hefyd gyfle i weld eliffantod gwyllt, siraff a rhinoceros yn eu cynefin.

Fe ddaeth yr amser iddi hedfan adref lawer rhy gyflym, ond roedd ei chyd weithwyr yn Milfeddygfa Ystwyth yn falch o'i gweld yn ôl a chlywed am yr holl hanesion.



Catrin gyda Xinandi y Cheetah

# GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Ann ag Ifan Mason Davies, Rhiwfelen, ar farwolaeth sydyn ei brawd yng nghyfraith yn ddiweddar.

### Pen blwydd Hapus

Dymunwn ben blwydd hapus i Sioned Jones, Yr Hafan, Cwmbrwyno wrth iddi ddathlu ei phen blwydd yn un ar hugain ar Ragfyr 14. Pob lwc i'r dyfodol.

### Llofnodi

Bu Caryl Lewis, Hafodau, yn llofnodi ei llyfrau yn Siop y Pethe ar y dydd Sadwrn cyntaf o fis Ragfyr.

# Y BORTH

### Llongyfarchiadau a phob dymuniad da

Llongyfarchiadau calonnog i Erin Fielding, 1 Bryngwyn Close, Y Borth, ar lwyddo gydag anrhydedd yn ei arholiad theori cerdd gyda 94% o farciau. Roedd Erin yn sefyll ei arholiad cyhoeddus cyntaf, Gradd 1. Mae Erin hefyd wedi llwyddo i ennill bathodyn Cerddor (Cam 1) mudiad y Sgowtiaid, a gobeithio y caiff hwyl ar y gwaith o fynd ati i ennill bathodyn Cam 2.

Ar wahân i ddathlu llwyddiant Erin a holl lawenydd y Nadolig, bydd hwn yn gyfnod arbennig o gofiadwy i aelodau teulu Erin – teulu sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y pentref ers pedair cenhedlaeth.

Bydd nifer o ddarllenwyr Y Tincer wedi sylwi ers misoedd ar yr hysbysiad yn nrws siop Fielding, sy'n diolch i'r gymdogaeth am bob cefnogaeth i'r fusnes ers hanner canrif. Prynwyd sawl celficyn hardd ac anrhegion arbennig o'r 'Pine Shop' dros y blynyddoedd y bu rhieni Erin, sef Mike a Lesa Fielding, yn cynorthwyo yno, a bydd gweld y siop yn wag yn gadael cryn fwlch yn y Stryd Fawr.

Bydd darllenwyr hynaf Y Tincer yn sicr o gofio bodolaeth y siop ar wedd arall, pan oedd y fusnes deuluol lewyrchus yn deillio o'r mynd mawr a fyddai ar gynnyrch y pobydd ardderchog yn y teulu, sef Tad-cu Erin – Fenton Fielding. Wedi i Fenton benderfynu ymddeol o'r gwaith blinedig hwnnw, bu llawer yn hiraethu am gael llenwi eu ffroenau unwaith eto yn y boreau bach ag arogl bendigedig ei fara yn crasu.

A gallech fod yn sicr gydol y flwyddyn o wasanaeth cwrtais yn y siop fara, a'r siop gelfi wedi hynny, gan Fam-gu Erin, Pauline Fielding. Pob dymuniad da i Fenton a Pauline am ymddeoliad hapus wedi blynyddoedd o ddiwydrwydd.

Coffa da hefyd am wenau rhadlon Hen Daid a Hen Nain Erin, sef mam a thad Fenton Fielding, a weithiodd mor ddygn ymhell wedi oed ymddeol, wrth gynorthwyo y tu ôl i gownter y siop fara lwyddiannus, yn enwedig adeg prysurdeb mawr y Nadolig. Fu'r dathlu yn y Borth fyth yn union yr un fath heb y Boncyff Siocled digymar o siop Fielding ! Atgofion melys...

### Brysiwch wella

Yn dilyn damwain bu raid i Margaret Owen, Fron yr Awel, Glanwern, dreulio rhai wythnosau yn Ysbyty Bron-glais ac erbyn hyn mae yn Nghartref Tregerddan. Gobeithio y bydd yn ol yn Fron yr Awel cyn bo hir ac wedi gwella - cofion cynnes ati a phob dymuniad da.

### Geni wyres

Llongyfarchiadau i Delyth a Rob Hunt ar enedigaeth wyres - ganed merch fach - Aisla Evie, yn ddiweddar i Seren a Ben Dimmack, Penrhyn-coch.




**Ymunwch â grŵp Facebook Ytincer**



# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Nos Lun Rhagfyr 7fed cawsom gwmni Cynthia Binks o Siop Wlân Clares Aberystwyth. Daeth a esiamplau o wahanol fathau o wlân i ni gael eu gweld a'u teimlo a hefyd nifer o ddillad wedi eu gwau. Cafwyd trafodaeth ddiddorol iawn a diolchwyd iddi yn gynnes iawn gan Lorraine Maloney. Gwnaethpwyd y te gan Nancy Evans ac Amanda Burton.

# LLANDRE

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Eugene Cory, Birchmead, Lôn Glanfred sydd wedi cael llawdriniaeth mewn ysbyty yn ddiweddar.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Daniel ac Ann, Llainwen, Lôn Glanfred – Daniel wedi colli ei dad oedd yn byw yn Llangeitho yn ddiweddar.

### Cofio Dai England y cefnogi gwaith Ambiwlans Awyr Cymru

Roedd maint y gefnogaeth i gyfarfod Cofio Dai England yn Bethlehem ar nos Wener Tachwedd 20fed yn adlewyrchiad o deimladau cynnes yr ardal tuag at Dai a Mair, Gareth, Rhian a Sion, Osian a Lisa a Margaret a Glyn Williams, Bryngolau. Roedd marwolaeth Dai yn sgîl damwain ffordd yn ergyd fawr i'r teulu ac hefyd i'r gymuned. Yn bennaf roedd yn ddyn teulu. Roedd Dai yn weithgar iawn mewn sawl cylch: yn Gynghorydd Cymuned, Llywodraethwr ar Ysgol Rhydypennau, Warden Eglwys Llanbadarn Fawr, yn gyn-Drysorydd *Y Tincer*, yn un o gefnogwyr mwyaf gweithgar Clwb Rygbi Aberystwyth ac yn Drysorydd a threfnydd y Clwb 50 y Banc Bro. Trefnwyd y noson gan Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn.

"Roedd Dai yn un o'r bobol mwyaf gwerthfawr yn y fro ac heb ei ymroddiad ef a'i debyg fydde na fawr o ysbryd cymunedol a bywyd cymdeithasol yn yr ardal. Roedd yn greadur tawel, didrodres ac addfwyn a byddai bob amser barod iawn i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wirfoddoli i gymryd swydd er mwyn hwyluso'r gwaith. Rydym yn gweld ei eisiau yn fawr iawn" medd Cadeirydd y Banc Bro Wynne Melville Jones.

Trefnwyd y noson gyda'r bwriad o godi arian i gefnogi gwaith Ambiwlans Awyr Cymru. Cafwyd ymateb ysgubol a chodwyd cyfanswm o £2,300. Gwahoddwyd *Côr Ger y Lli*, dan arweiniad Gregory Roberts, i gyflwyno eitemau cerddorol a chafwyd perfformiad caboledig a chofiadwy ganddynt. Mae Sion England yn aelod o'r côr a Rhian hefyd wedi bod yn aelod.

" Rydym am ddiolch i bawb, yn unigolion, cymdeithasau a busnesau am eu haelioni a'u cefnogaeth. Roedd y noson yn enghraifft ragorol o ardal gyfan yn uno i gydweithio. Nawr mae gyda ni gyfraniad teilwng iawn i'w gyflwyno i Ambiwlans Awyr Cymru er cof am Dai England," medd Wynne



Lluniau: Iestyn Hughes





**Cofio Dai England**
*Bethlehem, Llandre, 20/11/15*

Fe fynnwyd yr addfwyna' – ohonom,
Ac er uno'n dyrfa,
Drymed yw'r gwacter yma
A Duw'n dwyn ein dynion da.
**Huw Meirion Edwards**

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Bethan Henley, Sunmead, Lôn Glanfred, ar basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar.

### Graddio

Llongyfarchiadau i Gwion Llŷr James, Tremedd, ar gael ei radd MA yn y Cyfryngau Creadigol Ymarferol



Yn ystod ei ymweliad â Llanfihangel Genau'r-glyn ar Dachwedd 14eg cafodd Esgob Tyddewi flas ar gerdded y Llwybr Llên yng nghwmni Wynne Melville Jones.

"Roedd yr Esgob yn gyfarwydd iawn â nifer o'r cerddi ar y Llwybr ac roedd ei wybodaeth am y cefndir a'i adnabyddiaeth o nifer o'r beirdd yn adlewyrchu ei fagwraeth yn ardal *Y Tincer*. Methodd y dilyw â diffodd ei frwdfrydedd a'i fwynhad", medd Wynne.

## Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion

Mae y Gymdeithas yn cyfarfod yn yr hen Ysgoldy, Llanddeiniol am 8.00 yr hwyr ar y dyddiadau isod. Croeso i unrhyw un i ymuno â ni; y tâl aelodaeth yw £5.00

**27** Ionawr Phil Thomas, Milfeddygfa Ystwyth
**24** Chwefror William Griffiths, Comins-coch 'Ffiolau mêl'

# Cofio Canrif

**'Cofio Canrif'**
**nos Fawrth, 16 Chwefror 2016**
**am 7.30 o'r gloch yng**
**Nghapel y Garn.**

Noson i gofio canmlwyddiant cyngerdd arbennig a gynhaliwyd yn y Garn union gan mlynedd yn ôl i godi arian tuag at Ysbyty'r Groes Goch yn Aberystwyth. Yn y cyngerdd hwnnw, cymerwyd rhan gan nifer o gerddorion o Wlad Belg oedd wedi cael lloches yn ardal Aberystwyth ar ôl gorfod ffoi o'u gwlad yn sgil yn Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd cyflwyniad byr i hanes y cerddorion hyn gan Dr Rhian Davies, Cyfarwyddwraig Gŵyl Gregynog, sydd wedi gwneud ymchwil i'r hanes, a bydd artistiaid lleol yn cyflwyno rhai o'r caneuon a'r adroddiadau a gafwyd yn y cyngerdd yn 1916. Yna, bydd Siôn Meredith yn sôn am sefyllfa rhai ffoaduriaid sydd mewn amgylchiadau tebyg heddiw, a bydd cyfle i bawb gymdeithasu a blasu bwyd 'gwahanol' ar y diwedd.

Mynediad am ddim ond derbynnir cyfraniadau tuag at elusen sy'n cynorthwyo'r ffoaduriaid heddiw. Trefnir y noson gan Bwyllgor y Prosiect 'Cofio a Myfyrio' ac mae yna groeso cynnes i bawb.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau 26 Tachwedd yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Sian Jones. Cyfarfod byr oedd hwn, ond tebyg y bydd y cyfarfod nesaf yn hwy, sef ar 28 Ionawr, pryd y penderfynir ar y Praesept am y flwyddyn ariannol 2016/17, ac y dosberthir arian i fudiadau a chymdeithasau lleol sydd wedi gwneud cais am gymorth ac wedi cynnwys mantolen gyda'r cais. Ni chynhelir cyfarfod ym mis Rhagfyr.

Ni fydd pwyllgor cynllunio Cyngor Ceredigion yn trafod mater codi Twrbin Gwynt ar fanc Ruel Uchaf tan eu cyfarfod ym mis Ionawr. Tebyg bod mynedfa i'r man heb ei hystyried, yn ogystal â safle agos yr annedd gerllaw.

Ymddengys bod diddordeb cyffredinol yn yr ardal am bwrcasu Dai Ffib/Peiriannau Diffibrilio, a bod nifer o wragedd eisoes wedi codi swm sylweddol o arian mewn bore goffi, a bod person anhysbys wedi gadael swm o arian mewn ewyllys. Bu trafodaeth gyffredinol ar y posibiliadau, a'r mannau lle gellid eu gosod.

Adroddodd y Cynghorydd Paul Hinge fod gwaith coed y ffens ar flaen Tregerddan i'w trwsio, yn ogystal â'r sedd. Ni oes dim newyddion am y llwybr arfaethedig rhwng Dolau a Rhydypennau, ond ymddengys bod problem y parcio wrth y fynedfa i dai blaen Tregerddan wedi eu datrys. Mae hanes gorsaf arfaethedig Bow Street wedi ymddengys yn y *Cambrian News*. Bu problem gyda dŵr yn gorlifo ger Plas Cwmcynfelyn, a bu'r Cyngor allan, ond nid yw hyd eto yn llwyddiannus.

Telir £800 o bunnoedd am dorri porfeydd dros yr haf. Cwynwyd bod tipio anghyfreithlon yn un o gilfannau rhiw Cwmcynfelyn, a bod panel wedi torri yn y gysgodfa bws ger Caerfelin.

# Lansio cyfrol

Lansiwyd addasiad Efa Mared Edwards o nofel i'r arddegau, *Meistres y Bwa Hir*, ddechrau y mis yn y Jury's Inn yng Nghaerdydd, mewn digwyddiad gan y cyhoeddwyr, Chicken House. Bu Efa'n gweithio fel cyfieithydd a golygydd yn ystod y gwyliau i Atebol ac yn ystod yr haf bu'n cyfieithu nofel Linda Davies, *Longbow Girl* i'r Gymraeg. Mae'n nofel gyffrous ar gyfer plant 12+ oed, wedi'i lleoli yn ardal Aberhonddu, ac yn llawn anturiaethau. Meddai Efa: " Roedd hi'n dipyn o her ond rwy'n ddiolchgar iawn i Atebol am roi'r cyfle - a'r cyfrifoldeb - i fi i addasu'r nofel gyffrous hon i'r arddegau."



# Sefydlu Academi Berfformio

Bydd Academi Berfformio newydd yn cychwyn ym mis Ionawr yn yr ardal, sef Academi Berfformio Gerdd y lli. Bydd yr Academi Berfformio yn agored i blant blwyddyn 3 i 7. Y sefydlydd yw Gregory Vearey-Roberts; bu'n hyfforddi unigolion a phartion diri ac ef yn ogystal yw arweinydd Côr Ger y lli, Côr Sir Uwchradd Ceredigion a Chôr Plant Cynradd Sir Ceredigion. Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch gyda academigyl@gmail.com.

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
**Rhagfyr**
20 2.30 Gwasanaeth Nadolig Horeb
25 Cymun bore'r Nadolig Y Parchg Judith Morris
27 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa ola'r flwyddyn

**Ionawr 2016**
3 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
10 10.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa deuluol
17 10.30 Ysgol Sul
2.30 Dr Rhidian Griffiths
24 10.30 Ysgol Sul ar y cyd rhwng Eglwys Sant Ioan a Chapel Horeb – yn Horeb
10.30 Oedfa - I'w drefnu
31 10.30 I'w drefnu



### Penodiad

Cyhoeddodd Undeb yr Annibynwyr fod Rhodri Darcy, Rhydaman, wedi ei benodi yn Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu, swydd newydd a hysbysebwyd yn ddiweddar gan yr Undeb. Hyd yma mae Rhodri wedi treulio'r rhan helaethaf o'i yrfa ym myd darlledu ac, o bosibl, yn wyneb cyfarwydd i gynulleidfa 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'. Yn gerddor brwd ac yn brofiadol yn y defnydd o amrywiol gyfryngau cyfathrebu, daw ag ystod o sgiliau gwerthfawr i waith yr Undeb. Magwyd Rhodri ym Maesyrefail - bydd yn dechrau ar ei swydd newydd yn y flwyddyn newydd.

### Priodas aur

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Glyn a Norma Collins, Ger-y-llan, oedd yn dathlu eu priodas aur ar 3 Rhagfyr.

### Urdd y Gwragedd Penrhyn-coch

'Rydym wedi cael amrywiaeth o siaradwyr y tymor yma. Y cyntaf oedd Norma Collins, sef un o'r aelodau, yn sôn am ei hymweliad â Sidney Awstralia. Trwy sleidiau, gwelsom rhai o'r llefydd mae wedi ymweld â nhw, sef Pont Harbwr Sydney ac Ayers Rock i ddim ond enwi dau; gwelsom hefyd luniau o briodas Richard ei mab, sydd wedi priodi ac yn byw yno bellach ers rhai blynyddoedd.

Y bu Ann Mason Davies o Oginan yn siarad â ni am natur y Nadolig. Daeth a basgedaid o ffrwythau yr ydym i gyd yn eu defnyddio i goginio ar gyfer y Nadolig, a son ble mae cyfeiriad iddynt yn y Beibl, yn ogystal ag anrhegion, addurniadau a chanhwyllau i roi golau i'r byd.

Gan fod ailgylchu yn thema gŵyl coeden Nadolig yr eglwys eleni, dyna oedd testun ein siaradwr gwadd ym mis Rhagfyr. Y Parch Andrew Loat yn cyfeirio at ble mae ailgylchu wedi cymryd rhan yn y Beibl heb yn wybod i ni. Synnwyd ni a bu tipyn o drafod, dros gwpanaid o de.

Diolch i'r tri ohonynt am nosweithiau diddorol dros ben.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Anita Pugh, 9 Tan-y-Berth, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Da yw deall fod Ann James, Pen-banc, yn well ac wedi cael dod adref.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Jane Thomas, Ger-y-llan a fu yn weithgar iawn efo'i gŵr yn rhedeg eu busnes tacsis.

### Merched y Wawr

Nos Iau, 12fed o Dachwedd, fe groesawodd Glenys Morgan bawb i'r cyfarfod ac fe drafodwyd y busnes arferol. Yna fe aeth ymlaen i groesawu Tegwen Morris, Pennaeth Merched y Wawr. Hyfryd oedd cael ei chroesawu atom ac fe gafwyd noson hwylus dros ben yn ei chwmni. Fe roddodd i ni hanes ei gyrfa ar hyd y blynyddoedd drwy ddangos i ni ar ffilm llawer o bethau oedd wedi sefyll allan yn ystod ei hamser gyda Merched y Wawr. Noson wych. Fe ddiolchwyd i Tegwen gan Sue Hughes ac ategwyd y croeso gan Mairwen. Diweddwyd y noson trwy gael cwpanaid a sgwrs a thynnwyd y raffl fisol. Trefnwyd y noson hon gan Miriam Garratt.

### Cymdeithas y Penrhyn

Daeth yr awdures Myfanwy Alexander i roi sgwrs yng Nghymdeithas y Penrhyn, ar 18 Tachwedd. Fe'i magwyd yng Nghefn Coch, ger Llanfair Caereinion yn Sir Drefaldwyn, ac ar ôl byw ym mhob cornel o Brydain dychwelodd i



fagu chwech o ferched mewn tŷ to gwellt ger Llanfair Caereinion. Fel sgwennwr a darlledwr mae wedi cyfrannu i sawl rhaglen radio a theledu, gan gynnwys nifer o raglenni comedi a dychan. Enillodd wobr Sony am y gyfres gomedi *The LL Files* i Radio Wales yn 1999. Hi yw hanner tîm Cymru ar y *Round Britain Quiz* ar Radio 4 a'r haf yma cyhoeddodd nofel dditectif Gymraeg, *A Oes Heddwas?* (Gwasg Carreg Gwalch). Mae yn gynghorydd ar Gyngor Sir Powys.

Soniodd am hanes ysgrifennu'r nofel a'r bwriad gwreiddiol i'w hanfon i gystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol ond mae'n debyg iddi fethu cwblhau'r nofel mewn pryd. Cydnabu nad drwg o beth oedd hynny gan iddi elwa llawer ar y broses olygyddol. Ail-iaith yw'r Gymraeg i Myfanwy Alexander ond mae ei brwdfrydedd dros yr iaith yn amlwg ac roedd hi am sgrifennu nofel Gymraeg.

Rhoddodd grynodeb o'r nofel, heb ddatgelu gormod ar y plot, ac eglurodd mai'r symbyliad oedd yr awydd i lunio prif gymeriad oedd yn gwbl groes i brif gymeriad y gyfres deledu boblogaidd Y Gwyll. Roedd hi am osod ei phrif gymeriad yng nghanol ac yng nghalon y gymdeithas, ac roedd hynny'n amlwg yn deillio o'i phrofiad hi fel un sy'n gweithio'n ddiwyd yn ei chymuned leol ac yn cyfrannu llawer at ddiwylliant ei bro. Soniodd hefyd am ei hawydd i sgrifennu nofel hwyliog a darllenadwy ac mae'n amlwg iddi lwyddo gan fod dilyniant i'r nofel eisoes wedi'i chomisiynu.

Lledwyd y sgwrs yn yr ail hanner i sôn am ei bywyd amrywiol a diddorol a'i hoffter o sgrifennu. Cyn hyn roedd wedi cyfansoddi'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

Mae Myfanwy Alexander yn siaradwraig fyrlymus a difyr ac mae ganddi'r gallu i ennyn diddordeb ei chynulleidfa a'u cyfareddu. Cafodd dderbyniad ardderchog. Cafwyd trafodaeth frwd ar ddiwedd y sgwrs. Derbyniwyd nawdd Llenyddiaeth Cymru at y noson.

### Prifathro yn symud

Llongyfarchiadau i Emyr Pugh-Evans ar gael ei benodi yn Bennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon, Rhondda Cynon Taf.

### Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Rhian Haf - gynt o Glanstewi - a Sbeic ar enedigaeth merch fach - Greta Lleu - ddiwedd mis Tachwedd; wyres i Ceri a Richard Williams, sydd bellach yn eu cartref newydd yn Llanddeiniolen.

i Katy Nash, Y Ddôl Fach, ar enedigaeth Elsi ar 24 Tachwedd - chwaer fach i Tyler a Clayton.

i Cathryn ac Oliver Paton ar enedigaeth mab - Daniel - yn ddiweddar; ŵyr i Geoff ac Elenid Thomas, Nant Seilo.

ac i Seren a Ben Dimmack, Dôl Helyg, ar enedigaeth merch fach - Aisla Evie, yn ddiweddar.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Philip Ralphs, Garth Gwyn, ar ei ddyweddiad â Sally Greene ar 13 Rhagfyr.

### Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Greg Vearey-Roberts, Y Ddôl Fach, sydd yn symud o Ysgol Pen-llwyn i swydd yn Ysgol Plas-crug.



Plant Cylch Meithrin Trefeurig yn eistedd ar fagiau dillad sydd yn mynd i 'bags to schools' i godi arian i'r Cylch.

## DOLAU

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Gruffydd Aled ac Éimear Williams, Bronafon, ar farwolaeth chwaer Aled o Gaernarfon yn Nhrearddur, Môn ar 7 Rhagfyr.

## Canlyniadau Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tîm 1af**

10/10/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 8-1 Bow Street
17/10/15 *Cwpan CBC*
Penrhyn-coch 3-2 Llannerchymedd
24/10/15 *Cwpan Cynghrair*
Prifysgol Aberystwyth 1-4 Penrhyn-coch
31/10/15 *Cwpan Cymru*
Penrhyn-coch 4-0 Bae Trearddur
07/11/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 4-2 Llanrhaeadr
21/11/15 *Tlws CBC*
Penrhyn-coch 1-0 Penrhyndeudraeth

**2il Dîm**

10/10/15 *Cynghrair*
Eilyddion Bow Street 2-2 Eilyddion Penrhyn-coch
17/10/15 *Cwpan Cynghrair*
Padarn 5-1 Penrhyn-coch
24/10/15 *Cynghrair*
Eilyddion Penrhyn-coch 1-3 Padarn
31/10/15
Dolgellau 4-0 Eilyddion Penrhyn-coch

**Menywod**

11/10/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 0 - 3 Prifysgol Aberystwyth
18/10/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 2 - 2 Felin-fach
25/10/15 Y Geltaidd 0 - 13 Penrhyn-coch
1/11/15 Felin-fach 3 - 2 Penrhyn-coch

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
PLYGAIN MORLAN
7.30, nos Fercher, 16 Rhagfyr:
Dewch i ddathlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol. Croeso cynnes i bawb.
NOSON GWIS MORLAN
7.30, nos Fercher, 13 Ionawr:
Cwis blynyddol ble mae timau o gapeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm?
Ac os nad ydych chi mewn tîm, dewch draw i gefnogi!
Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com;
@CanolfanMorlan

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-5.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

ytincer@gmail.com

# Cofio Morfudd Rhys Clark

Tristwch a chwithdod yw cofnodi marwolaeth Morfudd ar Dachwedd 4ydd – nid yn unig i ni yn ardal y Tincer, ond i gynifer ar draws y wlad hon a gwledydd tramor. Fel y dywedodd Dai yn ei deyrnged i'w fam-gu, roedd ei theulu a'i chydnebydd yn ei hadnabod dan sawl enw :- Mam, Mam-gu, Nain, Bodo, Pachamama, M3, Paloma Blanca.

Ganed Morfudd ym 1920 yn Llangwyryfon ond ymfalchïai yn y ffaith iddi gael ei chenhedlu yn Venezuela, lle'r oedd ei thad yn gweithio yn y Gwasanaeth Diplomyddol. Anodd i ni heddiw ddychmygu'r siwrnai hirfaith o Venezuela i Geredigion i fam feichiog ym 1920. Morfudd oedd yr hynaf o blant Dr.T.Ifor Rees ac Elizabeth Rees; chwaer i Ceredig, Nest a Geraint.Treuliodd ei phlentyndod yn Bilbao, Sbaen. Magwraeth freintiedig mewn sawl ystyr ac ni phallodd ei chariad at y wlad a'r iaith. Er ei bod yn rhugl mewn sawl iaith, Sbaeneg oedd agosaf at ei chalon, a manteisiai ar unrhyw gyfle i siarad yr iaith wedi dychwelyd i Gymru. Yn un ar ddeg oed, danfonwyd hi i Ysgol Dr. Williams yn Nolgellau. Dymuniad ei thad oedd iddi gael addysg yn y Gymraeg. Roedd hyn yn dipyn o newid byd iddi, gan mai yn ei chartref yr addysgwyd hi hyd hynny. Profi bywyd mewn ysgol breswyl ymhell o'i theulu, ond buan y gwnaeth nifer o ffrindiau newydd a barodd yn ffrindiau oes. Roedd ffyddlondeb yn nodwedd ohoni - ffrind i Morfudd yn ffrind am byth. O Ddolgellau aeth i Goleg St.Hugh's yn Rhydychen a graddio mewn Sbaeneg a Ffrangeg. Wedi gadael Rhydychen aeth i weithio i'r Swyddfa Dramor yn Llundain a threulio cyfnod byr yn Bletchley Park yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ym 1943 dyrchafwyd ei thad yn llys-gennad i Bolivia – y cyntaf o Brydain i'r wlad honno – ac aeth Morfudd gydag ef a'i gynorthwyo yn ei waith. Bu'n rhaid treulio peth amser yn Mexico ar y daith, gan fod gwrthryfel yn Bolivia. Hudwyd Morfudd gan y wlad honno a dychwelodd droeon. Tra yn La Paz cyfarfu â'i darpar ŵr a phriodi - tad Hilary a Gwenan - cyn dychwelyd i Bronceiro ar enedigaeth Gwenan. Yno y bu weddill ei hoes hir a sefydlu cartref i'w merched a'i rhieni. Roedd Morfudd a Bronceiro yn gyfystyr. Hi oedd Bronceiro – yn angor a chalon ei theulu. Gofalodd yn dyner am gynifer ohonynt – ei rhieni, y modrybedd Phillips yn Nhan-y-Bryn, Anti Annie yn Derllys ac Uncle Goronwy yn Bron-Meillion. Roedden nhw'n deulu agos dros ben a Morfudd oedd y ddolen gyswllt yn cadw'r cwlwm clos rhwng yr hen a'r ieuanc.

Roedd Morfudd yn diffinio'r gair



'diymhongar'. Roedd ymffrost o unrhyw fath yn wrthun iddi. Meddai ar ddoniau lu, ond gwell ganddi eu cuddio dan lusern. Dyna a'i gwnaeth mor annwyl a hoffus i bawb a'i hadnabu. Serch hynny, roedd ganddi farn bendant a gallai wneud sylwadau bachog a threiddgar os byddai rhywbeth yn ei chythruddo.

Roedd ganddi ddiddordebau eang. Hoffai bob math o gelfyddyd – cerddoriaeth, llenyddiaeth, barddoniaeth, theatr, dawns, bale, ffilm, opera a phob gwaith cain. Diolch i Vernon am grynhoi cymaint o hoffderau a rhinweddau Morfudd mor gynnil a chywrain yn ei englyn coffa:-

'Heb chwenych bydol olud – carai iaith,
Carai waith celfyddyd,
A thrigodd o'i bodd mewn byd
A garai lesni'r gweryd.'

Carai iaith yn sicr. Hoffai ysgrifennu straeon byrion, straeon a dramâu i'r plant, ysgrifau a barddoniaeth. Hyfryd clywed ei nai, Ifor, yn darllen darn o'i gwaith yn y gwasanaeth. 'Jottings' fel y galwodd hi nhw yn ei ffordd ddi-rodres nodweddiadol. Cadwodd ddyddiadur personol tan yn ddiweddar iawn.

Carai bob agwedd o natur – môr, mynydd, coed, blodau, adar, glesni'r awyr, glesni'r gweryd a gwres yr haul. Fel ei thad, roedd dringo mynydd yn ail natur iddi. Manteisiai ar unrhyw gyfle i fynd i nofio yn y môr a cherdded ar y traeth yn y Borth. Bu'n trochi'i thraed yn y môr eleni – a hithau'n 95 oed! Mae gan y teulu atgofion melys am fynd am bicnic i lan y môr neu i ben mynydd – Morfudd wedi paratoi'r picnic – brechdanau wy a thomato oedd y ffefrynnau, os cofia i'n iawn.

Blodau – roedd rhyw dusw bach o flodau ym mobman yn Bronceiro – blodau'r maes a'r ffridd neu flodau o'r ardd. Carai flodau gwyllt – ar wahân i un – yr 'hen estron gwyllt o ddant y llew'. Roedd hi'n casau hwnnw ac yn ddi-dostur i dorri'i ben bob cyfle.

Cymerodd ran weithgar yn y capel a'r cymdeithasau cysylltiedig; yn aelod o Sefydliad y Merched a Merched y Wawr Genau'r-glyn ac yn cefnogi pob gweithgaredd yn y pentref a'r Neuadd. Bu'n casglu'n ffyddlon at Oxfam am flynyddoedd ac yn aelod o bwyllgor y Bad Achub. Roedd hi'n gelfydd â'i dwylo – gwnïo dillad i'r merched a gwau yn barhaus. Roedd rhywbeth ar y gweill bob amser – pellen o edafedd - gwau blancedi i'r Grŵp Help Llaw - yn ei hymyl tan y mis olaf.

Clywais hi'n dweud droeon mai curadur oedd hi ym Mronceiro. Curadur da dros ben. Welais i erioed dŷ mor llawn o atgofion – lluniau niferus o bawb o'r teulu, portreadau, dodrefn a chreiriau o bob rhan o'r byd – America Ladin yn bennaf, a digon o lyfrau i gyfiawnhau aden arall i'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae seld, gwely a chwpwrdd dillad o Nicaragua yn parhau yn y tŷ. Doedd fawr ddim yn gadael Bronceiro. Dyna ran o ramant y tŷ.

Roedd hi'n ffyddiog o gadw arferion a thraddodiadau. Helfa wyau Pasg bob blwyddyn yn y berllan; dathliadau pen blwyddi ac achlysuron teuluol di-ri; ymgynnull Ddydd Gŵyl Steffan a Nos Galan a Morfudd yn arwain y dawnsio; chwarae criced ar y lawnt; gwrando am y gwcw bob gwanwyn a thrip i weld clychau'r gôg ym Mis Mai. Y cof arall sydd gen i, wrth adael Bronceiro, dweud 'Does dim angen i chi ddod allan, Morfudd'. Yr un fyddai'r ateb bob tro – 'Den i wedi arfer hebrwng' a hithau'n mynnu, ta waeth am y tywydd, fy hebrwng i, a phob un arall, i ben y lôn. Hen arferion yn aros yn y cof.

Chwaraewyd tôn Morfudd ar derfyn y gwasanaeth – tôn gyfansoddodd ei thad-cu, J.T.Rees a'i chyflwyno i'w wyres.

'Seren fechan yn y nos,
Pwy a wnaeth dy wên mor dlos?'

Gawn ninnau wrth edrych ar y seren fechan, gofio am y wên dlos a bod yn falch a llawen o fod wedi ei hadnabod a rhannu'i chwmni.

Mawr yw ein cydymdeimlad â Hilary, Gwenan, Ceredig a'r teulu oll o golli un oedd mor annwyl iddynt.

**Meinir Lowry**

**Diolch**

Dymuna Hilary a Gwenan ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam annwyl iawn.

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Ar gyfnod yr erchyllderau ym Mharis ac mewn llefydd eraill ar draws y byd, braf iawn oedd medru mynychu digwyddiad yng Nghapel enwog Llwynrhydowen, oedd yn dod a phobl ynghyd o wahanol ffydd a'r digrefydd fel ei gilydd. Cynhaliwyd gwasanaeth llwyddiannus iawn yno fel rhan o wythnos rhyng-ffydd Cymru, gyda chynrychiolwyr Mwslemiaid, Undodwyr, Baha'i, yr Eglwys yng Nghymru ac eraill yn bresennol. Ar yr adeg hon, mae hi mor bwysig i gofio fod yr hyn sy'n ein huno fel pobl gymaint yn bwysicach na'r hyn sy'n ein gwahanu. Llongyfarchiadau mawr i drefnwyr y digwyddiad.

Llongyfarchiadau hefyd i gangen leol y Gymdeithas Gyfrifiaduron Brydeinig, am gynnal sesiwn Hawl i Holi lwyddiannus yn Aberystwyth. Roedd y cwestiynau yn heriol, ond mae'n faes hollbwysig i ddyfodol diwylliannol ac economaidd ein hardal. Bydd darllenwyr rheolaidd y golofn hon yn gwybod fod cyswllt band-llydan yn bwnc pwysig iawn i mi. Hefyd felly gwasanaeth ffôn symudol. Amrywiol iawn yw'r sefyllfa o hyd. Mae rhai mannau, gan gynnwys rhannau o Lambed, Aberteifi ac Aberystwyth, nawr yn medru derbyn gwasanaeth 4G trwy rai rhwydweithi. Deallaf hefyd fod gwelliannau wedi bod yn ardal Llangrannog ar ôl problemau dros y misoedd diwethaf y bum i'n eu codi gydag Ofcom. Ond mewn ardaloedd eraill mae'r gwasanaeth wedi dirywio, neu wedi dod yn fwy anghyson yn ddiweddar. Ac hefyd wrth gwrs mae ardaloedd – fel Pont-rhyd-y-groes a sawl un arall – lle mae diffyg signal o gwbl yn dal i fod yn broblem ddifrifol. Mae cynlluniau ar y gweill i daclo hyn mewn rhai ardaloedd gydag arian cyhoeddus, a byddaf yn parhau i bwyso ar y cwmnïau i wella'r ddarpariaeth.

Roedd y mis aeth heibio hefyd wedi dod a phrofiad newydd sbon i'm rhan, sef dod yn lysgennad cenedlaethol dros bysgodyn! Cynllun yw hwn gan sawl corff cadwriaethol i godi ymwybyddiaeth o'r angen i warchod rhai o'r pysgod sy'n bwysig i Gymru. Fel rhan o'r prosiect, daeth tri o Aelodau Cynulliad yn genhadon dros yr eog, y brithyll, a'm mhysgodyn innau, sef y sewin. Fel un a fagwyd yn nyffryn Teifi, rwy'n gwybod faint mor eiconig yw'r pysgodyn hwn. Rwy'n gwybod nad yw mor gyffredin ag y bu, ac mae angen cymryd mantais o'r wyddoniaeth ddiweddara er mwyn sicrhau ei fod yn ffynnu.

# llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.**
**Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



Llo buwch yr Ucheldir

# Myfyrdod

Dwi'n ei chael hi'n hawdd iawn deall pam bod yr arfer o gadw'r Adfent, cyfnod o baratoi ar gyfer Gŵyl y Nadolig, wedi dod yn llawer mwy cyffredin. Mae'n ymateb i'r ras wyllt sy'n mynnu tynnu pawb a phopeth i mewn i'w llwybr.

Daeth y dymuniad o gymryd amser i baratoi yn amlwg i mi eleni wrth sylwi fod Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn nodi'r tymor. Mae hynny'n arbennig o arwyddocaol gan fod 'na amser (flynyddoedd maith yn ôl yn wir) pan fyddai'r Annibynwyr yn ansicr iawn am ddathlu'r Nadolig ei hun.

Ond ar gyfer beth dyn ni'n paratoi mewn gwironedd? Fel yn achos plant yr Ysgol Sul, gallwn deimlo fod yr ateb yn rhy amlwg i fentro ei lefaru: dyn ni'n paratoi ar gyfer Iesu. Ond byddai'r plant yn iawn i betruso achos pwy all baratoi ar gyfer Iesu? Beth yw ystyr hynny?

Os y cyfan yw'r Adfent yw'r un hen weithgaredd ag arfer gydag enw newydd i dawelu'n cydwybod nid yw'n mynd i fod yn newid mawr. Wrth wneud yn siŵr fod pob eitem ar y rhestr o bethau i'w gwneud wedi'i gyflawni, a bod pawb yn hapus gyda'r hyn sy'n cael ei roi a'i dderbyn, fyddwn ni ddim yn barod ar gyfer dim byd. Yn hytrach y demtasiwn bydd blino, ac ildio'n llwyr cyn y diwrnod mawr a cholli ar unrhyw fendith. Os dyn ni'n paratoi ar gyfer dyfodiad Iesu, dylai hynny roi rhagflas o'r gobaith sydd i ddod.

Mae'r Adfent yn gyfnod o baratoi ar gyfer dathlu dyfodiad Iesu ym mhreseb Bethlehem, ond hefyd ar gyfer y dydd mawr pan ddaw drachefn i sefydlu ei deyrnas dragwyddol o gyfiawnder a thangnefedd. Dylai goleuni'r wybodaeth honno oleuo unrhyw "dywyllwch" sydd yn ein dathlu eleni. Ond dylai hefyd yn ein sicrhau ni, a sicrhau byd cyfan a'i dywyllwch, bod goleuni gwerthoedd rheitiach a gobaith sicrach i'w cael a bod gweithio tuag at hynny yn rhan o bob paratoi gwerth yr enw.

**Lyn Lewis Dafis**


# Adolygiadau

***Linda Griffiths a Sorela Olwyn y Sêr* – (*Fflach CD355L*)**
Ymhlith nifer o CD's ymddangosodd yn yr Eisteddfod roedd yr uchod - gan Linda Griffiths a'r merched - Lisa, Gwenno a Mari (Sorela). 'Olwyn y Sêr' yw teitl y CD a hefyd cân olaf y diweddar amryddawn Alun Sbardun Huws. Roedd Sbardun yn ysbrydoliaeth i Linda, fel sawl un arall, ac mae'n golygu llawer iddi bod hon yn ymddangos ar y CD.

Ymysg y caneuon eraill mae 'na deyrngedau i'r diweddar Meredydd Evans. Mae 'Cân Merêd' gan Dewi Pws a Hefin Elis yn creu darlun personol hyfryd ohono. Mae 'Rhodwydd, y gân sy'n cloi'r casgliad, yn benillion grymus gan Myrddin ap Dafydd ar alaw syml o eiddo Linda, sy'n sôn am y bwlch mae Merêd wedi'i adael ar ei ôl yng Nghymru.

Cyfuniad o waith Myrddin a Linda yw 'Fel Hyn Mae'i Fod' hefyd. Cân ysgafn sy'n cyfeirio at yr hwyl a gafwyd yn yr Hafod a'r Meifod ers talwm.

Mae'r casgliad yn cynnwys tair cân o eiddo Linda ei hun, gyda dwy ohonynt yn adrodd hanes ei thaid a'i nain. Yn 'Y Ferch o'r Bargoed' ceir hanes Nain Penrhos yn cael cynnig llond dwrn o aur gan ei thaid i roi'r gorau i'w chariad, David Griffiths (sef Taid Linda). Mae 'Digon yw Digon' yn adrodd hanes y ddau'n cael eu taflu o'u cartref gan y landlord wedi i David wrthod mynd yn ôl i wneud mwy o waith ar ddiwedd diwrnod chwilboeth adeg y cynhaeaf. Cyfansoddodd Linda y drydedd gân, sef 'Siwrnai Ddi-ben-draw' ar ôl gwylio ffilm Raymond Briggs, 'The Snowman' y Nadolig ar ôl iddi golli ei mam.



Cafodd y gwaith recordio a chynhyrchu ei wneud gan Lee Mason, sydd hefyd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaith offerynnol ar y traciau. Ceir cyfraniad gan Geraint Cynan ar yr allweddellau ac mae Linda ei hun yn chwarae'r consertina ar un cân.

Canu plygain ganol haf? Wel dyna fu Parti'r Penrhyn yn ei wneud fis Awst. Cawsant wahoddiad i ganu - un o ddau barti o'r tu allan i Faldwyn - mewn rhaglen 'Awr y plygeinwyr' yn Tŷ Gwerin brynhawn Sul y Steddfod.

Nid dyma'r tro cyntaf iddynt ganu canol haf - maent yn dal i sôn am yr haf crasboeth pan fuont yn recordio yn Llanidloes ar gyfer y pecyn *Cadw Gŵyl* (Gwasg yr Eglwys yng Nghymru, 2000).

Mae y parti hefyd i'w clywed ar CD newydd gyhoeddwyd ar gyfer yr Eisteddfod gan Sain Dyfi *Plygien D'rwen - un cylch o wasanaeth plygain Eglwys Sant Tudur, Darowen, Bro Ddyfi*. Recordiwyd ym mhlygain, 8 Ionawr 2015 a hefyd ar y CD mae Cantorion CYD, a Rhiannon Ifans a Trefor Puw. Mae y CD ar gael gan Sain Dyfi ac yn y siopau.

Am fwy o fanylion ac am CD's eraill Sain Dyfi *Doniau Dyfi ac Un bugail bach* (Dyfan Jones) gweler www.saindyfisound.co.uk/

# Cyngor Cymuned Melindwr

Ar nos Iau 19 Dachwedd 2015, gyda'r Cynghorydd Jean Watson yn y gadair a'r Cynghorwyr Andrea Jones, Dafydd Fryer, Richard Edwards, Aled Lewis, Bethan Bebb, Gareth Daniel, Llinos Jones a'r Cynghorydd Sirol Rhodri Davies yn bresennol fe drafodwyd y canlynol:

Cais Cynllunio A150879 29 Stad Pen-llwyn, Capel Bangor – codi estyniad un llawr i'r estyniad yn y cefn i godi cegin a lle bwyta newydd.

Penderfynodd yr cynghorwyr i gefnogi'r cais cynllunio.

Cynhelir diwrnod ailgylchu nwyddau trydanol bychan yn Neuadd Pen-llwyn yng Nghapel Bangor ar brynhawn Llun yn mis Ionawr 2016, gwyliwch allan am bosteri yn hysbysebu'r digwyddiad.

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw broblem, yna cysylltwch gyda'ch cynghorydd lleol.

Dymuna Cyngor Cymuned Melindwr Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**CD 50 o Emyn-donau**




Ar ddydd Gwener yr Eisteddfod Genedlaethol lansiwyd CD newydd o emyn-donau ar yr organ at ddefnydd Capeli ac Eglwysi sydd yn aml yn cael eu hunain heb organydd i gyfeilio mewn gwasanaethau. Bydd y CD newydd yn adnodd gwerthfawr a phwysig ar eu cyfer hwy trwy sicrhau canu cynulleidfaol i gyfeiliant organ safonol mewn gwasnaethau ym mhob man i'r dyfodol . Mae'n cynnwys 50 o emyn-donau adnabyddus yn cael eu chwarae gan un o organyddion amlycaf Cymru, Robert Nicholls, a llawlyfr sy'n rhestru cannoedd o emynau i'w canu gyda'r tonau. Mae'n siŵr y byddai sawl un yn mwynhau canu gyda'r gerddoriaeth yn y cartref neu yn y car - rhyw fath o karaoke Cristnogol! Ymhlith y casgliad mae tonau addas ar gyfer pob achlysur gan gynnwys y Pasg, y Nadolig, Angladdau, Priodasau, y Cymun, Bedydd, Ordeinio a dechrau a diwedd Oedfa.

Recordiwyd yr emyn-donau ar organ Capel Bedyddwyr Y Tabernacl, Yr Aes, Caerdydd. Cafodd y prosiect ei wireddu gan y cynhyrchydd a'r cerddor, Gwawr Owen, ar sail syniad gan y Parchg Carys Ann a'i gŵr Maldwyn Lewis. Mae'r CD a'r llawlyfr ar gael o swyddfa Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Abertawe.

"Mae hwn yn adnodd cyffrous a defnyddiol dros ben," meddai Dr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb. "Yn ogystal â bod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer oedfaon, gellir defnyddio'r CD yn y cartref ac yn y car, mewn ysgolion a chartrefi preswyl. Mae'n briodas wych o dechnoleg a thraddodiad. Rwy'n edmygu'r syniad, y gwaith a'r brwdfrydedd y tu ôl i'r prosiect hwn."

Mae'r CD a'r llawlyfr ar werth am £16. Gellir ei phrynu dros y we ar annibynwyr.org neu trwy gysylltu â swyddfa Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glan yr Afon, Abertawe SA7 0AJ 01792 795888

# Colofn Enwau Lleol

Enw'r hen gwmwd oedd yn cynnwys dalgylch *Y Tincer* oedd *Cwmwd Perfedd*. Gall y gair *perfedd* olygu 'coluddion, ymysgaroedd' neu 'canol, rhan fewnol'. Yr ystyr 'canol' a welir mewn enwau lleoedd, a chafodd *Cwmwd Perfedd* ei enwi am mai ef oedd y canol o'r tri chwmwd sy'n ffurfio *Cantref Penweddig*. Y ddau gwmwd arall oedd *Genau'r Glyn* a *Chreuddyn*.

Digwydd *perfedd* mewn nifer o enwau lleoedd eraill yn yr ardal yn ogystal.

I'r dwyrain o Bont-goch, mae tair nant sy'n llifo mwy neu lai'n gyfochrog cyn uno i ffurfio afon Cwmere neu Gymerau (sydd yn ei thro yn llifo i afon Eleri). *Nant Bwlch Glas* a *Nant Llwyd* yw'r nentydd o boptu, ond enw'r nant ganol yw *Nant Perfedd*. Roedd tŷ annedd o'r un enw hefyd yn wreiddiol. Cyfeirir ato yn un o lawysgrifau Edwinsford yn 1563/4 fel *Tythyn Nant Pervethe* (Iwan Wmffre: *The Place-Names of Cardiganshire* t. 1142), a gellir gweld ei adfeilion ar lan ogleddol y nant.

Ac edrych yn ehangach, llifa nant o'r enw *Nant Perfedd* drwy *Gwm Perfedd* ychydig i'r gogledd o Gwmystwyth. Lleolir y nant hon yn y canol rhwng *Nant Hylles* a *Nant y Gorlan*, a cheir annedd o'r un enw yn yr achos hwn yn ogystal.

Ar gyrion pentref Pontarfynach ceir fferm o'r enw *Brynperffaith*. Dengys ffurfiau cynnar ar yr enw (megis *Tythyn-y-bryn-perfedd-ycha* a *Tythyn-y-bryn-perfedd-issa* yn y Crosswood Deeds yn 1616 (t. 38)) mai ystumiad yw'r elfen *perffaith* o *perfedd*. Tybed a ddigwyddodd hynny mewn ymgais i ddatgysylltu'r enw â *perfedd* yn yr ystyr llai dymunol 'coluddion, ymysgaroedd'?

Yr un elfen a welir yn ogystal yn yr enw *Ynysyberfedd* ar lan Cors Caron ger Swyddffynnon. Gellir tybio bod yr enw'n cyfeirio at leoliad yr annedd mewn perthynas ag *Ynys-y-bont* ychydig i'r gorllewin ac o bosibl *ynys* arall golledig.

**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org




Nantperfedd, Bont-goch (trwy garedigrwydd Richard Huws)

# Taith gerdded y mis

## Rhan o lwybr yr arfordir

**Man dechrau**: Troi i'r dde ger y Lodge. Lle i barcio wrth fynediad i'r goedwig.
**Map**: OS Explorer OL23 GR 667933.
**Pellter**: 4 milltir hawdd.




O'r man parcio fe welwch iet yn eich arwain i ran o lwybr yr arfordir. Mae'r arwyddion ar hyd y llwybr hwn yn hollol glir nes cyrraedd y feidr. Trowch i'r dde ar hyd y feidr heibio Llwyn Gwyn a chadw i'r chwith nes ymlaen ac fe ddewch allan i'r ffordd ger Cefngweiriog. Dilyn y ffordd 'nol i'r man dechrau.

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Pennau
Ar agor pob dydd tan y Nadolig
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**
y tincer

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Diogelwch Tân

Daeth Karen Roberts a David Goffin allan i'r ysgol cyn hanner tymor i atgoffa'r plant am ddiogelwch tân. Cymerodd y plant ran mewn gwasanaeth llawn hwyl a sbri gyda neges glir ac effeithiol. Diolch.

### 'Into Film Festival'

Cafodd y plant gyfle hyfryd o wylio 'Cinderella' yng Nghanolfan y Celfyddydau am ddim yn ystod wythnos 'Into Film Festival'. Roedd yn gyfle hyfryd i ymlacio, joio a dysgu am werthfawrogi ffilm. Ar ôl dychwelyd nôl i'r ysgol cafodd y plant gyfle i drafod y ffilm a rhoi barn. Rydym yn ystyried cychwyn 'Clwb ffilm' yn y flwyddyn newydd.

### Rhoddion gan bwyllgor carnifal y Borth

Rydym wedi bod yn ffodus iawn eleni eto i dderbyn rhoddion oddi wrth bwyllgor Carnifal y Borth. Cafodd yr ysgol £1000 i wario ar Dŷ Bach Twt newydd i'r Cyfnod Sylfaen ac adnoddau ymarfer corff. Diolch yn fawr iawn.

### 'Bible explorers'

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf rydym wedi mwynhau cael Mrs Annette o'r Bible Explorers allan i ddysgu plant Cyfnod Allweddol 2 addysg grefyddol. Mae'r plant wedi dysgu llawer am yr Hen Destament a bydd y plant i gyd yn derbyn Beibl a thystysgrif cyn gwyliau'r Nadolig.

### Plant Mewn Angen

Cafodd yr ysgol, 'Great Borth Bake off' i godi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Roedd llawer o blant wedi coginio cacennau adref ac wedi dod â nhw mewn i'r ysgol i werthu mewn bore coffi ac arwerthiant mud. Cododd yr ysgol £171.05 sydd yn arbennig o dda!

### Cymerauhydro

Mae plant Cyfnod Allweddol 2 wedi gweithio gyda chwmni 'Vagabondi' o Fachynlleth i greu pypedau ar gyfer ffilm cymerauhydro. Cafodd y plant lawer o hwyl yn paratoi a ffilmio. Cafodd y plant, rhieni ac athrawon wahoddiad i fynd i première y ffilm yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Roedd pawb wedi mwynhau; diolch yn fawr.

### Bags 2 school

Diolch i bawb a roddodd eu hen ddillad i Bags 2 School. Rydym wedi codi £152 i'r ysgol. Ardderchog!

### Canu carolau

Ar fore dydd Llun 7fed o Ragfyr, buodd yr ysgol i gyd allan yn canu carolau. Aeth y plant i Morrisons gyntaf ac wedyn nôl i Hafan y Waun i ganu i'r henoed. Cafodd y plant lawer o hwyl ac rydym wedi codi £153.50. Ardderchog blant!!

Eirian Reynolds,
Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
Perchnogion:
Gwyn a Janet Evans
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013











Am noson wych yn actio, canu a dawnsio ffantastig! Robin Hood.

# Ysgol Pen-llwyn

### Cyngerdd Nadolig

Cafwyd neuadd orlawn ar y 3ydd o Ragfyr ar gyfer Sioe Nadolig yr Ysgol. Bu'r plant yn ymarfer dros yr wythnosau diwethaf. Eleni daeth yr ysgol gyfan at ei gilydd i greu perfformiad unigryw oedd yn cyfuno bywyd modern a stori'r geni. Roedd y stori yn dilyn postfeistr wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer amser prysuraf o'r flwyddyn yn dosbarthu parseli a chardiau Nadolig. Roedd y stori hefyd yn dilyn plant sy'n derbyn eu cardiau Nadolig. Roedd pob carden yn dod yn fyw i roi cipolwg i stori'r geni. Cafwyd hwyl arbennig o fewn caneuon y sioe a chyfle i bob un actio. Diolch yn fawr i'r plant ac i'r staff am greu sioe wych! Diolch hefyd i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am baratoi te a mins pei!

### Ysgolion Iach

Llongyfarchiadau i'r plant cyngor Eco ac Iach am ennill deilen ychwanegol i'r ysgol. Llongyfarchiadau yn ogystal i'r holl staff fu ynghlwm.

### Ffair Nadolig

Bydd ffair Nadolig yr ysgol ar yr 16eg o Ragfyr yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Bydd y ffair yn dechrau am 6.30yh. Dewch i gael hwyl a gorffen eich siopa Nadolig. Pris mynediad fydd £3.50. Bydd hyn yn cynnwys ymweliad â Siôn Corn i'r plant. Bydd cyfle i brynu cynnyrch a chrefftau lleol, raffl ac adloniant yno ar y noson.

### Gala Nofio Yr Urdd

Mis diwethaf buodd rhai unigolion dosbarth 2 a 3 yn cystadlu yng Ngala nofio'r Urdd lawr ym Mhlas-crug. Da iawn i chi gyd am gynrychioli'r Ysgol mor dda.

### Plant mewn angen

Cafwyd diwrnod 'dillad ein hunain' ar 12fed o Dachwedd er mwyn codi arian I Blant Mewn Angen. Gwelwyd rhai oedd wedi dewis i wisgo gwisgoedd ffansi ynghyd ag eraill yn gwisgo crysau-t Pudsey. Diolch yn fawr i'r plant am gyfrannu i'r achos da!

### Canu – Morrisons

Bydd y plant yn canu yn archfarchnad Morrisons ar y 14eg o Ragfyr. Dewch lawr i siopa Nadolig yn sain y plant yn canu.







MYNACH GARDEN MAINTENANCE
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

Harddwch
Siriol
Beauty

07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

y tincer

# Ysgol Penrhyn-coch

### Y Llyfrgell Genedlaethol

Aeth disgyblion CA 2 am fore i'r Llyfrgell Genedlaethol i edrych a mwynhau arddangosfa T Llew Jones. Mwynheuodd pawb y daith o gwmpas yr adeilad ac fe wnaeth sawl un yn dda iawn gyda'r cwis am T Llew Jones.

### Gala Nofio yr Urdd

Llongyfarchiadau i bawb a gymrodd ran yn y Gala; ymdrech arbennig . Da iawn chi

### Diwrnod Plant mewn angen

Thema eleni oedd archarwyr felly roeddem mewn dwylo da gan bod bron i bawb wedi gwiso fel archarwr! Cafwyd stondin hyfryd o deganau meddal. Trefnwyd hyn gan blant y cyngor ysgol. Diolch iddynt am eu hymroddiad i gynorthwyo elusen arbennig fel Plant Mewn Angen.

Cawsom ni ymweliad yn ystod y diwrnod gan yr Aelod Seneddol Mark Williams fu yn yr ysgol er mwyn sgwrsio gyda'r staff a phlant pob dosbarth. Dywedodd y byddai'n gwisgo fel archarwr y tro nesaf!

### Urdd

Mae'r disgyblion sydd wedi bod yn mynychu pob nos Fercher wedi creu'r goeden Nadolig ffantastig sydd erbyn hyn yn yr arddangosfa coed nadolig yn yr eglwys. Mae'r goeden wedi ei chreu allan o focsys wyau ac yna gwnaethpwyd dynion eira allan o boteli a thopiau llaeth.

### Ffair Aeaf

Roedd ganddon ni nifer fawr o eitemau yn y cystadlaethau crefft a choginio eleni! Roedd yn werth gweld yr arddangosfa liwgar o goed a sêr y Nadolig. Diolch i bawb am roi enw ysgol Penrhyn ar y Map! Canlyniadau:
Coeden Nadolig – 1af Carys James Bl 6
Mins Peis - 1af Annie May-Bl 3
Canmoliaeth uchel – Mins Peis – Martha Rowlands – Bl 6

Canmoliaeth uchel-Seren – Cayden Holmes ac Ollie Byrne – Derbyn.

Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd!










**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT

AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH
**TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
**IONA BAILEY**
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# Ysgol Rhydypennau







### Ymweliadau Drama!

Cafwyd ymweliad arall gan Gwmni Arad Goch. Cyflwynodd y cwmni gynhyrchiad pwerus am obeithion, ofnau ac anturiaethau'r Cymry a hwyliodd i Batagonia i greu bywyd newydd 150 o flynyddoedd yn ôl. Roedd y ddrama yn addas ar gyfer plant 7 i 11 oed. Fe ddysgodd y plant lwyth o wybodaeth am hanes y daith fythgofiadwy yn ystod y ddrama a mwynhaodd y plant weithdy arbennig yn cynnwys tasgau difyr yn dilyn y perfformiad.

### PC Alun Jones

Er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o beryglon a phryderon sy'n codi weithiau yn ein cymdeithas, fe ddaeth PC Alun Jones i'n plith i rannu gwybodaeth a chynnig cyngor hanfodol ar faterion megis bwlio, ymddygiad gwrth-gymdeithasol a chamddefnyddio cyffuriau.

### Llyfrgell Genedlaethol

Ar Dachwedd y 5ed fe aeth blwyddyn 1 a 2 i'r dre i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Yno cafodd y plant eu tywys o gwmpas y llyfrgell gan ddysgu am hanes yr adeilad a sut mae'r llyfrau, y cylchgronau a'r cyhoeddiadau diweddaraf yn cael eu cynnal a'u cadw. Diolch yn fawr i Rhodri Morgan am egluro a rhannu ei wybodaeth eang mor effeithiol i'r plant.

### Pêl-droed Merched

Cynhaliwyd gŵyl bêl-droed i ferched 5 a 6 ar y 23ain o Dachwedd yn Neuadd Chwaraeon Y Brifysgol. Gŵyl oedd hon yn unol â phrosiect FIFA 'Live Your Goals'. Y n dilyn yr hyfforddiant a'r gweithgareddau derbyniodd y merched grys-t a thystysgrif.

### Darllenwyr Brwd

Derbyniodd 5 o blant yr ysgol gydnabyddiaeth am ddarllen mor frwd yn ystod ein gwyliau haf eleni. I ddathlu eu gorchest derbyniodd y pump dystysgrif a medal. Campus!

### Gorchest

Llongyfarchiadau mawr i Elain Morgan am lwyddo i ganu ei ffordd i gôr 'Only Kids Aloud'. Ar ôl y gwaith anodd o gael ei derbyn i'r côr bu Elain yn ymarfer yn rheolaidd gyda gweddill y criw cyn teithio lawr i Gaerdydd i berfformio mewn cyngerdd arbennig ar lwyfan Canolfan y Mileniwm; am brofiad!

---

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk
@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.





# Tasg y Tincer

Diolch i'r un fu'n lliwio llun y gerddorfa yn y rhifyn diwethaf, sef Elin Pierce Williams, Bow Street. Ti sy'n cael y wobr y tro hwn. Hwrê, a diolch am y llun! Dwi'n edrych ymlaen at gael pentwr o luniau drwy'r drws yn fuan – cofiwch gystadlu'r tro hwn, bawb!


Ai ymweliad Siôn Corn yw eich hoff beth am y Nadolig? Er mai'r gŵr barfog, caredig yn ei ddillad coch a gwyn sy'n dod ag anrhegion i ni ar noswyl Nadolig, nid dyna sydd digwydd ym mhob gwlad. Corrach bach o'r enw Jõuluvana sy'n dod ag anrhegion i blant Estonia. Mae e'n hoffi cael pysgodyn yn wobr am ei waith, nid mins-pei a gwydraid o sieri! Saxta Baba a'i wyres Qar Qizi sy'n dod ag anrhegion i blant Azerbaijan, a hynny ar Ddydd Calan. Bom Velhinho sy'n ymweld â phlant Brasil, a Tió de Nadal – darn o bren ag wyneb arno – sy'n dod ag anrhegion i gartrefi Catalonia. Mae'r pren yn cael ei gadw'n ddiddig o dan flanced gynnes drwy gydol mis Rhagfyr, ac yn cael ei roi ar y tân ar noswyl Nadolig. Daw'r plant o hyd i'w anrhegion o dan y flanced.

Dathlu geni Iesu Grist wnawn ni wrth roi a derbyn anrhegion a mwynhau'r ŵyl. Roedd Iesu am i ni fod yn garedig wrth ein gilydd, a bod yn ffrindiau. Y mis hwn, lliwiwch lun plant y byd yn dal dwylo'i gilydd. Mae'r golomen yn arwydd o heddwch, o fod yn ffrindiau – rhywbeth pwysig iawn i'w gofio eleni wrth i ni ddathlu geni Iesu.

Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn dydd Calan (Ionawr 1af). Ta ta tan toc, a Nadolig llawen i chi i gyd!



Elin Pierce Williams



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth

ISSN 0963-925X
9 770963 925009

Rhif 384 | RHAGFYR 2015